

## Cofion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Beryl Jones (Nantglyn) yng Nghartref Y Bwthyn, Yr Wyddgrug y penwythnos diwethaf. Roedd Beryl yn un o'r anwylaf, ac er na fu'n dda ei hiechyd ers peth amser, wynebodd hynny'n ddewr a di-gŵyn. Diolchwn i Dduw amdani. Cyflwynwn y plant – Iona, Helen, Heulwen, Glynne a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd, a gweddïwn y byddant yn profi cariad Duw yn eu hamgylchynu yn eu galar a'u hiraeth am fam, nain a hen nain arbennig.
- Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Irwyn Jones (Tanyfron) a Falmai Evans (Saron), ac mae Gwyneth Griffiths ac Edith Maloney (Henllan) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Diolchwn i Dduw am y pedwar ohonynt, a hyderwn y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.

## Galw Gweinidog

Mae'n dda medru cyhoeddi i ganlyniad y bleidlais gyntaf trwy holl eglwysi'r Ofalaeth fod yn unfrydol o blaid galw gweinidog, a hefyd bod y Gymdeithasfa oedd yn cyfarfod yr wythnos hon wedi rhoi caniatâd inni symud ymlaen. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth, ac i'r holl gynrychiolwyr o'r Henaduriaeth a ddaeth i arwain y pleidleisio yn eglwysi'r Ofalaeth.

Gallwn gadarnhau, felly, y bydd y Pwyllgor Bugeiliol yn cyfarfod yn Llansannan nos Fercher nesaf (20fed) am 7.30 i ystyried rhywun cymwys i'n harwain o fis Medi ymlaen, sef y cam nesaf yn y broses o alw gweinidog. Aelodau'r pwyllgor fydd holl flaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, yr un aelod o bob eglwys gafodd ei ethol trwy'r pleidleisio diweddar, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Henaduriaeth a'r Cwrdd Chwarter.

## Ar Osod

Tŷ clyd yn Llansannan wedi ei adnewyddu'n ddiweddar. 3 ystafell wely. Cegin newydd. Gwres canolog olew. Paneli solar tuag at gost y trydan. Am fanylion pellach a ffurflen gais, cysylltwch â Trefor Roberts, Prysor, Llansannan (870683).

## I ddod

- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 26ain am 7.30. Y wraig wadd fydd Karen Owen.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Eglwys Unedig Jerusalem, Bethesda dydd Mercher, Mai 4ydd. Bydd Mererid Mair a Llinos Mai, Eglwys Noddfa, Caernarfon yn annerch am 2.00, a'r Athro Mari Lloyd Williams, Waengoleugoed yn annerch am 5.30.
- **DARLITH DYRCHAFael** – “Sut y cawsom y Beibl?” yn Ffestri Llansannan nos Iau, Mai 5ed am 7.30 gyda'r Parch. Ddr Watcyn James yn darlithio. Croeso cynnes i bawb.



# Llais Bro Aled

## Dydd Sul, 17<sup>eg</sup> Ebrill 2016

## Darllenid y Dydd

Actau 14: 1-7

(BCND tud.145 / BCN tud.133)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i'r oedfaon heddiw ac i ddiwrnod arall o ras ein Duw! Mae dyddiau gras yn werthfawr iawn – pob un ohonynt yn agor cyfle newydd i ni i ymateb i alwad Duw arnom a chyfle newydd i brofi cymdeithas hefo'n gilydd ar ein taith ysbrydol. 'Gweld yr Iesu' ydi'r hyn y mae gras Duw yn ei ganiatáu – agor ein llygaid o'r newydd i'w weld trwy lygaid ffydd.

Mae gweld yn un o'r pum synnwyr rhyfeddol sydd gennym – gweld, clywed, cyffwrdd, arogl, a blasu. Mae'r cyfan yn cydweithio i'n helpu i amgyffred ein byd a'n lle yn y byd. Mae clywed weithiau'n ein galluogi i 'weld' ac mae arogl weithiau yn ein galluogi i 'flasu'. Mae'n synhwyrâu yn gymhleth ac yn cydweithio'n rhyfeddol. Weithiau pan fyddaf yn arogl arogl tost yn y gegin, rwyf wedi ei flasu cyn i mi roi tamaid ohono yn fy ngheg!

Felly hefyd hefo'n synhwyrâu ysbrydol. Mae llygaid ffydd yn cydweithio hefo clywed – neu wrando – Gair Duw, a'r teimlad o bresenoldeb yr Ysbryd yn cydfynd hefo'r profiad o wrando mewn ffydd. Dywedir fod y newyddion da am Iesu fel arogl hyfryd yn lledu trwy'r holl fyd (2 Corinthiaid 2:16) a bod yr arogl yma i'w 'glywed' gan bawb! Os ydi'n synhwyrâu naturiol ni yn rhyfeddol, does dim rhyfedd fod y Duw a'n creodd o'r newydd yng Nghrist wedi rhoi synhwyrâu ysbrydol rhyfeddol i ni hefyd.

Ond mae'n rhan o'r gobaith Cristnogol fod y synhwyrâu ysbrydol o weld trwy ffydd a gwrando trwy ffydd yn mynd i gael eu newid yn ôl i 'weld' corfforol hefo'n llygaid a 'gwrando' corfforol hefo'n clustiau. Llygaid a chlustiau newydd fydd y rhain wrth gwrs – rhan o gorff yr atgyfodiad y mae Paul yn ei ddisgrifio yn 1 Corinthiaid 15. Bydd y corff ysbrydol yma yn cyfuno ac yn perffeithio ein synhwyrâu, ac felly rydym yn mynegi'r rhyfeddod hwn mewn iaith 'synhwyrâu' cyfarwydd. Fe fydd dydd yn dod pan y cawn weld 'â'n llygaid', wyneb yn wyneb, a hynny 'er fy malurio'n y bedd' (CFF 547) ac y cawn glywed anthemau'r nefoedd hefyd ac arogl aroglarth y nefoedd (Datguddiad 5: 7-11)

Mae gweld a chlywed, teimlo, arogl a blasu hyfrydwch Gair Duw yn ein cymell hefyd i siarad gair Duw – i rannu rhyfeddod gogoniant Duw a'i waith hefo pobl eraill. Fel y lleidr ar y groes pan oedd ei draed yn rhwym a'i ddwylo'n gaeth, cafodd ei dafod ei ryddhau i lefaru, ymbil a thystiolaethu i ogoniant Iesu. Gobeithio heddiw y cawn ninnau'r cyfle i rannu'r gobaith sydd ganddom yn Iesu a'i ganmol o'n calonnau.

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 19<sup>eg</sup> • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher – 20<sup>fed</sup> • Bydd y **Pwyllgor Bugeiliol** yn cyfarfod yn Llansannan am 7.30 ar gyfer y cam nesaf yn y broses o alw gweinidog. Aelodau'r pwyllgor fydd holl flaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, un aelod o bob eglwys sydd wedi eu hethol trwy'r pleidleisio diweddar, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Henaduriaeth a'r Cwrdd Chwarter.
- Iau – 21<sup>ain</sup> • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 22<sup>ain</sup> • **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Sadwrn – 23<sup>ain</sup> • **“Y Gair i Bawb”** o 9.45 – 4.00 yn Ysgol y Berwyn, Y Bala. Syniadau ymarferol ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant a ieuencid ac arweinwyr eglwysi, adnoddau gwych, enghreifftiau i'ch ysbrydoli, a chyfle i geisio rhywbeth newydd.
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 (*sylwch ar y newid*). Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 gyda'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00 (*sylwch ar y newid*). Yn ystod yr oedfa bydd y Parch. John Owen, ewythr i Mared, yn bedyddio Elysteg Emyr, merch fach Mared a Neil Casey. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 24<sup>ain</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.

### Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📱 07775 701102  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07849 591163  
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07900 308461  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 16: 12-15 (BCND tud.121 / BCN tud.111)